Dŵr Cymru Welsh Water

V2 - July 2025

# Y Rheoliadau Dŵr

Sut maen nhw'n effeithio arnoch chi. Gwybodaeth i Ddatblygwyr, Dylunwyr a Gosodwyr.



Dŵr yfed diogel, o safon uchel a dibynadwy bob amser.

# Cynnwys


Beth yw'r Rheoliadau? 3

Pwy sy'n gorfod cydymffurfio â'r Rheoliadau? 3

Ymhle mae'r Rheoliadau mewn grym? 3

Rôl Dŵr Cymru 4

Defnyddio Contractwyr Cymeradwy WaterSafe 4

Rheoliad 4 - cynnyrch sy'n cydymffurfio 5

Categorïau hylif - deall y risg 5

Tir halogedig a phibellau atal 5

Pryd y mae angen defnyddio pibellau atal 6

Cyflenwadau ar gyfer adeiladau dros dro 6

Safbibellau 6

Eich cysylltiad newydd – y gofynion o ran y ffos 7

Cysylltiadau diamedr mawr - 63mm a mwy 8

Clorineiddio pibellau cyflenwi 8

Systemau llethu tân (FSS) 9

Trefniadau taenellwyr nodweddiadol 9

Amlddeiliadaeth 11

Cyflenwadau dŵr preifat a dŵr o ffynonellau amgen 12

Tâp marcio - gwasanaethau dŵr 12

Systemau ailddefnyddio/adfer dŵr 12

Hysbysu 13

Falfiau RPZ (parth pwysedd is) 14

Pwyntiau i'w nodi mewn datblygiadau newydd 14

# Y Rheoliadau Dŵr
## Gwybodaeth i ddatblygwr, gosodwyr a dylunwyr

### Beth yw'r Rheoliadau?

Mae Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 (y Rheoliadau) yn berthnasol i eiddo sy'n cael cyflenwad dŵr iachus gan Ddŵr Cymru.

Nhw yw'r gofynion cenedlaethol ar gyfer dylunio, gosod a chynnal a chadw systemau plymio, ffitiadau dŵr ac offer sy'n defnyddio dŵr ar draws Cymru a Lloegr.

Eu pwrpas yw atal gwastraff, camddefnydd, defnydd diangen, mesur gwallus a halogiad y dŵr rydyn ni'n ei ddarparu ar gyfer ein cwsmeriaid.

**!**

**Dylid nodi nad yw'r senarios a amlinellir yn y daflen hon yn gynhwysfawr, a'u bwriad yw cynnig ychydig o arweiniad ar rai o'r materion cyffredin sy'n codi o dan y Rheoliadau wrth i ni archwilio datblygiadau newydd.**


### Pwy sy'n gorfod cydymffurfio â'r Rheoliadau?

Mae gofyn i'n cwsmeriaid, fel perchnogion neu ddeiliaid yr eiddo rydyn ni'n ei gyflenwi, gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yma.

Mae'r Rheoliadau'n ymwneud â'r bobl sy'n gosod neu'n cynnig gosod y ffitiadau dŵr hefyd, sy'n golygu bod gofyn i ddatblygwyr, yn ogystal ag unrhyw un sy'n gosod neu'n cynnal ffitiadau dŵr, sicrhau bod eu gwaith yn bodloni'r gofynion.

### Ymhle mae'r Rheoliadau mewn grym?

Yn nodweddiadol, mae'r Rheoliadau mewn grym o'r fan lle mae ein cyflenwad yn dod i mewn i'r bibell gyflenwi i eiddo ein cwsmeriaid, a hyd at y fan lle mae'n cael ei ddefnyddio trwy dapiau, falfiau ac offer.



## Rôl Dŵr Cymru

Fel cyflenwr eich dŵr, rydyn ni'n gorfodi'r Rheoliadau hyn ar ran Llywodraeth Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Gall ein Rheoleiddwyr ein harchwilio ni o ran ein rôl gorfodi er mwyn sicrhau bod ein dull o weithredu o ran ein cwsmeriaid yn gyson, yn deg ac yn cyd-fynd â gofynion y Rheoliadau.

Yn Dŵr Cymru, rydyn ni'n falch o roi ein cwsmeriaid yn gyntaf. Dyna pam ein bod ni'n ceisio gweithio gyda'n cwsmeriaid i ddatrys problemau pan nad yw pethau fel y dylen nhw fod.

Trwy ein hysbysu ni am gynlluniau i wneud gwaith ymlaen llaw a rhannu manylion y gwaith gosod, gallwn ni adolygu ceisiadau er mwyn asesu a fydd yr hyn sy'n cael ei gynnig yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Gallwn bennu amodau wrth roi caniatâd hefyd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Lle bo hynny'n briodol, gallwn ddarparu, neu eich cyfeirio at ganllawiau cyhoeddedig ar ofynion y Rheoliadau mewn perthynas â'r cysylltiad newydd yn ogystal â'n gofynion archwilio ni ein hunain.

Mae pwerau gennym i gyflwyno hysbysiadau i gywiro unrhyw faterion sy'n mynd yn groes i'r Rheoliadau. Mae hi'n drosedd mynd yn groes i'r Rheoliadau, sy'n golygu, os nad yw'r gwaith yn cael ei gywiro, gallai'r rhai sy'n gyfrifol amdano gael eu herlyn, a fyddai'n golygu dirwy a neu gofnod troseddol.

Mae Dŵr Cymru'n cyhoeddi polisi gorfodi ar ein gwefan lle gallwch ddysgu rhagor am sut rydyn ni'n gweithio gyda'n cwsmeriaid i hyrwyddo cydymffurfiaeth ar draws ein hardal gyflenwi.

Gweler y polisi gorfodi isod:
<u>www.dwrcymru.com/rheoliadaudŵr</u>

## WaterSafe a WIAPS - contractwyr cymeradwy

Nid ydym yn disgwyl i'n holl gwsmeriaid fod yn ymwybodol o ofynion y Rheoliadau, ond gallwch chi chwarae eich rhan trwy ddefnyddio pobl broffesiynol sy'n deall y Rheoliadau wrth gyflawni unrhyw waith plymio.

Plymwyr, gweithiwyr tir a gosodwyr arbenigol ag yswiriant i gyflawni'r gwaith, sydd â chymwysterau perthnasol yn eu maes technegol, ac sydd wedi cyflawni hyfforddiant ychwanegol er mwyn dangos gwybodaeth briodol am y Rheoliadau yw contractwyr cymeradwy.

Fel cyflenwr eich dŵr, mae Dŵr Cymru'n cydweithio'n agos â chontractwyr cymeradwy a'u cynlluniau er mwyn helpu i hybu cydymffurfiaeth trwy ddefnyddio aelodau yn ein hardal gyflenwi. Rydyn ni'n cynghori ein holl gwsmeriaid i ddefnyddio contractwr cymeradwy lle bynnag y bo modd.

WaterSafe®
LOCAL APPROVED CONTRACTORS

Cyfeiriadur y gellir ei ddefnyddio am ddim yw **WaterSafe** lle gallwch ddod o hyd i gontractwyr cymeradwy yn eich milltir sgwâr. Mae'r sefydliad yn tynnu'r Cynlluniau contractwyr cymeradwy sy'n gweithredu yn y DU ynghyd dan yr un to.

WIAPS

**WIAPS** yw un o'r Cynlluniau contractwyr cymeradwy sy'n gweithredu o dan WaterSafe. Mae aelodaeth o WaterSafe am ddim i aelodau Cynlluniau Contractwyr Cymeradwy cymwys cyfredol.


Os nad ydych chi'n blymwr neu'n gwmni plymio cymeradwy, byddem yn argymell eich bod chi'n cael copi o'r Rheoliadau, unrhyw ddiwygiadau iddynt a dogfennau canllaw perthnasol ar y Rheoliadau Dŵr gan y Llywodraeth neu Water Regs UK er mwyn helpu i sicrhau eich bod chi'n gweithio mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau.

## Rheoliad 4 - cynnyrch sy'n cydymffurfio

Wrth ystyried prynu ffitiadau ac offer plymio, mae hi'n syniad da sicrhau bod y cynnyrch rydych chi'n ei ddewis o ansawdd a safon briodol bob tro. Dylech ystyried hefyd a yw'r hyn rydych chi am ei osod yn addas at yr amgylchiadau o dan sylw.

Mae'r Rheoliadau'n manylu ar ofynion y ffitiadau dŵr ac yn darparu rhestr o ffitiadau a chynhyrchion sydd wedi eu profi i gydymffurfio. Gelwir hyn yn gydymffurfiaeth â Rheoliad 4.

## Categorïau hylif - deall y risg





Mae Categori Risg yn cael ei briodoli i ffitiadau dŵr a halogyddion hysbys. Mae'r Categori Hylif yn arwydd o lefel y risg i iechyd y cyhoedd a defnyddwyr, a lefel y risg i'r rhwydwaith cyflenwi dŵr ehangach yn achos digwyddiad halogi. Mae'r dŵr rydyn ni'n ei gyflenwi, sy'n bodloni'r gofynion rheoliadol o ran defnydd domestig ac sy'n cael ei ystyried yn iachus, yn disgyn i Gategori Hylif 1. Mae lefel y risg yn cynyddu gyda phob categori, gyda Hylif Categori 5 yn dod â'r lefel uchaf o risg. Mae halogyddion a gosodiadau yr ystyrir eu bod yn risg Categori Hylif 5 yn arbennig o beryglus i iechyd oherwydd crynodiad posibl o organebau pathogenaidd, ymbelydrol neu wenwynig.

Esiamplau nodweddiadol o'r rhain yw pethau fel tapiau uno pibellau masnachol, offer meddygol neu labordy, a chafnau yfed anifeiliaid. Mae'r Rheoliadau'n darparu amddiffyniad ar gyfer unrhyw osodiadau sy'n peri risg o halogiad, naill ai trwy ôl-seiffno neu ôl-bwysedd.

Mae ein rheoleiddwyr wedi pennu'r mathau o ddyfeisiau a threfniadau y gellir eu defnyddio at ddibenion amddiffyn rhag adlif ym mhob senario. Mae rhagor o wybodaeth am Gategorïau Hylif unigol ac amddiffyniad rhag adlif ar gael ar ein gwefan neu trwy gysylltu â ni yn uniongyrchol.

## Tir halogedig a phibellau atal

Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer atal halogi'r dŵr rydyn ni'n ei gyflenwi ar gyfer ein cwsmeriaid. Mae gosod ffitiadau dŵr mewn unrhyw leoliad sydd naill ai'n achosi neu sy'n debygol o achosi halogiad yn drosedd. Gwyddom fod hydrocarbonau, fel y rhai sy'n bresennol mewn tanwydd, olew a chemegolion eraill yn treiddio trwy MDPR - sef y deunydd y bydd y mwyafrif o bobl yn ei adnabod fel deunydd glas nodweddiadol y pibellwaith cyflenwi dŵr. Gall y sylweddau hyn halogi'r cyflenwad dŵr ac effeithio ar ansawdd y dŵr yn ein rhwydwaith.




Polisi Dŵr Cymru mewn achosion lle mae'r tir naill ai:

a) Wedi ei halogi gan hydrocarbonau neu

b) Yn debygol o gael ei halogi gan hydrocarbonau oherwydd natur yr eiddo a/neu'r ardaloedd cyfagos - gan gynnwys storio cemegolion ar y safle.

yw bod yn rhaid i'r holl bibellwaith o dan y ddaear gael ei osod gan ddefnyddio system o bibellau atal sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau (BS 8588) – h.y. sy'n ymgorffori haen fewnol o alwminiwm anhydraidd.

Mae'n hawdd adnabod pibellau atal ar y safle am eu bod yn edrych yn aml-haenog. Dim ond mewn achosion lle'r ydyn ni wedi dweud bod ei angen y bydd ein cydweithwyr yn derbyn pibellau atal. Gallwn ofyn i chi ddarparu tystiolaeth fod eich pibell atal yn bodloni gofynion y Rheoliadau er mwyn sicrhau ein bod ni'n amddiffyn iechyd y cyhoedd a'n rhwydwaith.

## Pryd y mae angen defnyddio pibellau atal

Os ydych chi'n storio olew, tanwydd neu gemegolion eraill ar eich eiddo, rhaid i'ch pibellwaith cyflenwi dŵr a'ch ffitiadau o dan y ddaear fod yn gallu gwrthsefyll hydreiddiad hydrocarbonau a halogyddion. Mae hyn yn cynnwys systemau gwres canolog olew.

Yn achos safleoedd tir llwyd, gallwn dderbyn adroddiad halogiad tir fel tystiolaeth nad oes angen pibell atal. Byddai angen i'r adroddiad ddod i'r casgliad nad oes unrhyw dystiolaeth o halogiad ar y tir lle bwriedir gosod eich cyflenwad dŵr newydd.

Ar gyfer pob cysylltiad newydd, gan gynnwys cyflenwadau adeiladau dros dro, lle bo tebygolrwydd o halogiad gan hydrocarbonau, byddwn ni'n mynnu bod system o bibellau atal sy'n cydymffurfio yn cael ei defnyddio ar gyfer yr holl bibellwaith o dan y ddaear.

## Cyflenwadau adeiladau dros dro


Lle gofynnir am gysylltiad i gynorthwyo'r datblygwr i gwblhau ei waith, bydd Dŵr Cymru yn caniatáu i'r datblygwr wneud cais am gyflenwad dros dro. Nid yw gofynion y Rheoliadau yn cael eu llacio ar gyfer y cyflenwadau hyn.

Bydd ein tîm yn asesu sut y bwriedir defnyddio eich cysylltiad ar y safle ac yn pennu sut y byddem yn argymell eich bod chi'n gosod eich trefniant cyflenwi ar gyfer adeilad dros dro.

Yn dibynnu ar ddefnydd y cyflenwad dros dro, mae'n bosibl y cewch ganiatâd i ddefnyddio trefniant safbibell dros dro, ond ni fydd hynny'n wir bob tro.

## Safbibellau

Mae ein cydweithwyr sy'n cyflawni ymchwiliadau'n aml yn ffeindio bod safbibellau, fel y rhai a ddefnyddir mewn cyflenwadau ar gyfer adeiladau dros dro, wedi cael eu gosod yn anghywir. Rydyn ni'n disgwyl i'n cwsmeriaid osod eu safbibellau yn gyson â'n canllawiau. Mae esiampl o drefniant safbibell addas a rhai o feini prawf ein harchwiliadau isod:





- Rhaid i'r pibellwaith sy'n cyflenwi'r safbibell fod mewn ffos addas ac wedi ei gosod i'r dyfnder cywir.
- Rhaid i'r holl bibellwaith yn y ffos sy'n codi i'r safbibell gael ei inswleiddio mewn ffordd briodol a bod mewn dwythell wedi ei selio.
- Rhaid gosod a chynnal ffitiadau'r safbibell mewn blwch y gellir ei gloi.
- Rhaid i'r holl bibellwaith gael ei inswleiddio'n ddigonol er mwyn ei amddiffyn rhag rhew a difrod.
- Rhaid darparu stoptapiau a thap draenio er mwyn hwyluso ynysu, trwsio a chynnal y safbibell.
- Rhaid darparu falf ddwbl ar y safbibell, a rhaid gosod amddiffyniad addas rhag rhew.


## Eich cysylltiad newydd – y gofynion o ran y ffos

Bydd angen archwilio'r ffos yn achos pob cais am gysylltiad newydd. Ein dull ni o sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei osod yn cydymffurfio o gychwyn cyntaf y datblygiad yw hyn. Pan fyddwch chi'n barod am archwiliad o'r ffos, mae hi'n bwysig gadael y ffos a'r bibellwaith yn agored i ni dystiolaethu i gydymffurfiaeth â meini prawf y Rheoliadau a bennir isod.


Pan fydd cydweithiwr yn mynd allan i archwilio ffos, byddan nhw am sicrhau:

- Ei bod hi'n hawdd adnabod y bibell gyflenwi dŵr (am ei bod naill ai o blastig glas neu gopr â gorchudd glas) a'i bod yn addas ar gyfer eich gosodiad.
- Bod y bibell gyflenwi newydd mewn ffos addas, gyda'r pibellwaith wedi ei osod i ddyfnder o rhwng 750mm a 1350mm islaw lefel orffenedig y ddaear.
- Rydyn ni'n argymell bod pibellau cyflenwi dŵr yn cael eu gosod â radiws clir o o leiaf 350mm wrth gyfleustodau eraill. Ni ddylid gosod pibellau cyflenwi dŵr yn agos at unrhyw ddraeniau dŵr budr na charthffosydd o dan y ddaear.
- Rhaid gosod y bibell cyflenwi dŵr newydd hyd at y pwynt cysylltu fel y mae'r plan cysylltu'n ei ddangos.
- Dylid darparu coil o bibellwaith dros ben yn y man cysylltu er mwyn caniatáu i'n contractwyr gwblhau'r cysylltiad.
- Rhaid inswleiddio'r bibell gyflenwi dŵr newydd mewn ffordd briodol a'i hamgáu mewn dwythell gaeedig wrth iddi godi a dod i mewn i'r safle (ni chaniateir defnyddio ewyn sy'n ehangu fel inswleiddiad). O leiaf 100mm ar gyfer cysylltiad 25mm. Dylai'r dwythellau fod o faint addas i ymgorffori'r bibell gyflenwi a'r inswleiddiad lle bo angen.
- Rhaid i'r ddwythell ymestyn y tu hwnt i'r wal allanol y tu allan, a dod i ben uwch lefel y llawr gorffenedig yn fewnol. Lle bo pibellwaith yn dod i mewn i'r adeilad llai na 750mm o wyneb allanol unrhyw wal allanol, rhaid inswleiddio'r pibellwaith sy'n dod i mewn i'r adeilad o fewn y ddwythell gaeedig hefyd.
- Wrth y pwynt mynediad i'r eiddo, rhaid gosod o leiaf stoptap a thap draenio uwchben lefel y llawr gorffenedig, mewn man sy'n hawdd cyrraedd ato.
- Rhaid selio dau ben y pibellwaith neu eu capio mewn ffordd briodol er mwyn atal dim rhag dod i mewn.
- Rhaid cael hawddfraint i'r tir gan unrhyw dirberchnogion trydydd parti lle bo hynny'n briodol.



- Rhaid leinio'r ffos â deunydd sy'n addas at yr amgylchedd a darparu Tâp Marcio Dŵr ar hyd y bibell wasanaeth i gyd.
- Rhaid darparu o leiaf 100mm o wely llwch/tywod ac amgylchyniad ar hyd y bibell gyflenwi i gyd.
- Os ydych chi'n bwriadu cael system llethu tân a chysylltiad dŵr domestig, rhaid i'ch gosodiad gydymffurfio â'r gofynion isod (gweler Systemau Llethu Tân).
- **Mewn eiddo annomestig, bydd angen gosod falf ddwbl ar linell y bibell gyflenwi yn y pwynt mynediad i'r eiddo hefyd.**
- **Os yw'r gwaith wedi cael ei gyflawni gan gontractwr cymeradwy, rhaid darparu copi o'r dystysgrif cydymffurfiaeth wrth ein hysbysu ni fod eich ffos yn barod.**




## Cysylltiadau diamedr mawr - 63mm a mwy

Yn ogystal â'r gofynion uchod, rhaid i gysylltiadau diamedr mawr:

- Ddod i ben â ffitiad cantel addas yn barod i'n contractwyr eu cysylltu; a
- Cael eu clorineiddio a'u profi fel a nodir isod, dim ots am eu hyd.

Os oes unrhyw gwestiynau gennych am hyn, cysylltwch â'r Gwasanaethau Datblygu.

## Clorineiddio pibellau cyflenwi

Mae clorineiddio pibellau cyflenwi'n ofynnol lle:

- Mae gan y cysylltiad newydd ddiamedr o 63mm neu fwy; neu
- Mewn unrhyw achos arall y mae Dŵr Cymru'n ei bennu.

Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r Datblygwr gyflwyno 'Tystysgrif Bacteriolegol' cyn creu'r cysylltiad â'r brif bibell ddŵr, gan gynnwys yr holl bibellwaith mewnol ac allanol a'r offer diffodd tân. Lle bo clorineiddio'n ofynnol, rhaid darparu tystiolaeth ddilys o glorineiddio ar gyfer Dŵr Cymru cyn i'r cysylltiad gael ei awdurdodi.

Dylid nodi, os na fodlonir y meini prawf perthnasol uchod adeg archwilio'r ffos, ni chaiff y cysylltiad ei awdurdodi a gallech fod yn atebol i dalu am ymweliad di-fudd. Cewch eich cyfarwyddo ynghylch beth sydd angen ei wneud er mwyn pasio'r archwiliad, a bydd angen trefnu ymweliad pellach trwy ein tîm Gwasanaethau Datblygu.

Ar ôl i'r ffos basio'r archwiliad, bydd disgwyl i chi orchuddio'r rhan fwyaf o'r bibell gyflenwi â thywod neu ddeunydd gwelyo addas arall er mwyn atal difrod - ond rhaid gadael y pen lle mae eich pwynt cysylltu heb ei orchuddio.

Bydd gofyn hefyd i chi osod tâp marcio addas ar hyd y bibell gyflenwi newydd yn ei chyfanrwydd fel bod modd ei hadnabod yn rhwydd wrth ei dadorchuddio.

## Systemau llethu tân (FSS)

Mae ein Polisi ar Daenellwyr Domestig ar ein gwefan trwy'r linc isod.

Mae ein Polisi Taenellwyr Domestig ar ein gwefan, sganiwch y cod QR am fanylion.

Tynnir sylw'r datblygwr at ofynion mewn perthynas ag adeiladau neu aneddiadau sengl ac Eiddo Amlddeiliadaeth. Dylid nodi na ellir darparu cysylltiadau Maniffold os yw'ch safle yn dod o dan y 'Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru)' a ddaeth yn gyfraith yn Ionawr 2016.

Wrth ddylunio eich system llethu tân, mae hi'n bwysig bod yn ymwybodol o'r codau ymarfer perthnasol sy'n sicrhau bod y systemau yn cael eu dylunio, eu gosod a'u profi i safon briodol:


- BS 9251: 2021 – Systemau taenellwyr tân ar gyfer deiliadaeth ddomestig a phreswyl - Cod ymarfer
- BS 8458: 2015 – Systemau sefydlog i amddiffyn rhag tân
  – systemau niwl dŵr preswyl a domestig
  – cod ymarfer ar gyfer dylunio a gosod

## Trefniadau taenellwyr nodweddiadol

**Cyflenwad dŵr domestig a diffodd tân cyfunol**

Mae'r dŵr llonydd a geir mewn systemau llethu tân ar gysylltiadau o'r math yma'n achosi risg o halogiad. Rhaid i chi amddiffyn eich cyflenwad dŵr domestig a'n rhwydwaith cyflenwi dŵr trwy ddarparu amddiffyniad priodol rhag adlif, fel falf un ffordd, yn y pwynt lle mae eich cyflenwad yn dolennu i fwydo'r system taenellu neu niwlo.


Bydd angen hefyd i chi sicrhau bod modd ynysu'r rhan yma o'r system a'i draenio at ddibenion cynnal a chadw a thrwsio.



## Cyflenwad dŵr domestig a diffodd tân cyfunol - â phwmp (uniongyrchol)

Gallai fod modd i chi ddefnyddio pwmp i gyflawni'r cyfraddau llif angenrheidiol i gynnal eich system. Yn ogystal â holl ofynion nodweddiadol cyflenwad dŵr domestig a diffodd tân cyfunol a ddangosir yn y diagram cyntaf, rhaid i ddylunwyr sicrhau bod y pwmp yn cael ei osod ar y gangen sy'n cyflenwi'r system llethu tân yn unig.

Byddwn ni'n gofyn hefyd i chi ddarparu'r fanyleb dechnegol ar gyfer y pwmp ac unrhyw offer cysylltiedig - yn ogystal â thystiolaeth am gydymffurfiaeth â Rheoliad 4 wrth ei gydosod.





## Storfeydd penodol â chysylltiad dŵr parhaol

Ystyrir bod dŵr sy'n cael ei storio at ddibenion llethu tân yn risg Hylif Categori 5.

Felly, rhaid i unrhyw seston storio a ddefnyddir at y dibenion hyn ymgorffori amddiffyniad digonol rhag adlif, fel math o drefniant Bwlch Aer AB â gorlif cored â sgrin. Dylai'r seston ymgorffori dull addas o rybuddio am y bygythiad o orlif hefyd


Rhaid i'r gangen bwrpasol o'r pibellwaith sy'n cyflenwi'r seston yma ymgorffori falf un ffordd mor agos ag sy'n ymarferol bosibl at bwynt dolennu'r gangen, yn ogystal â bod â ffitiadau ar gyfer draenio'r rhan yma o'r system.




## Storfa bwrpasol heb gysylltiad dŵr parhaol

Lle nad oes unrhyw opsiwn ymarferol arall, byddwn ni'n caniatáu i ddatblygwr osod seston ar ei ben ei hun i ddal digon o ddŵr i gyflenwi'r system llethu tân.

Dim ond lle nad oes unrhyw ffitiadau neu gysylltiadau dŵr gan y seston y gellid eu defnyddio i ffurfio cysylltiad parhaol y caniateir hyn.




Dylid llenwi gan ddefnyddio trefniant pibell dyfrio yn unig, a rhaid byth â gadael y bibell ddyfrio o dan y dŵr o fewn y tanc. Ar ôl llenwi, rhaid datgysylltu'r bibell ddyfrio wrth y cyflenwad dŵr.

Rhaid i'r gangen sy'n cyflenwi tap uno'r pibellau neu'r trefniant llenwi ymgorffori falf un ffordd mor agos ag sy'n ymarferol bosibl at y pwynt dolennu, a rhaid ei darparu â ffitiadau i ynysu a draenio'r rhan yma o'r system pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

## Storfeydd Dŵr Cyfunol at ddibenion domestig a llethu tân

Lle argymhellir gosod storfeydd dŵr cyfunol at ddibenion domestig a llethu tân, bydd angen cael caniatâd Dŵr Cymru ymlaen llaw. **Dylid cyfrifo cyfaint y storfeydd a'u dylunio er mwyn atal dŵr rhag troi'n ferddwr.**


## Amlddeiliadaeth

Mae Dŵr Cymru'n caniatáu cysylltiadau diamedr mwy ar gyfer datblygiadau amlddeiliadaeth, fel blociau o fflatiau, rhandai neu safleoedd eraill lle mae deiliaid a mesuryddion unigol o fewn un adeilad. Yn y senarios yma, rhaid gosod trefniant maniffold mewnol yn unol â'r canllawiau canlynol.

Mae angen i fesuryddion dŵr fod mewn mannau cymunol hygyrch er mwyn caniatáu i'r bobl sy'n darllen mesuryddion ar ein rhan a'n contractwyr cynnal a chadw gyflawni eu gwaith. Mae cwpwrdd dal mesurydd yn addas ar gyfer yr holl bethau hyn.

Yn ogystal, rhaid bod modd ynysu a draenio pob anheddiad â deiliaid ar wahân, e.e. â stoptapiau, a gosod y system gyfan mewn un lleoliad hygyrch. Cyflawnir hyn trwy ddefnyddio trefniant maniffold mesuryddion. Mae maniffoldau o'r fath ar gael ar sawl cyfluniad y gellir eu hadeiladu gan ddefnyddio'r pibellau a'r ffitiadau angenrheidiol.

I'ch cynorthwyo i fodloni'r gofynion hyn, rydyn ni wedi cynhyrchu esiampl o sut y byddai maniffold mesurydd nodweddiadol sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau'n edrych.




### Pethau Allweddol i'w Cofio

- Mae igam-ogamu'r maniffoldau fel bod y ffitiadau sydd nesaf at ei gilydd yn amrywio o ran uchder yn eu gwneud nhw'n fwy hygyrch. Rydyn ni'n awgrymu sicrhau bod 100mm fertigol a llorweddol rhwng amgaeadau'r gwahanol fesuryddion.
- Rhaid i amgaeadau ar gyfer cyflenwadau domestig safonol fod yn gallu cymryd mesurydd dŵr 1½" BSP (Gwrywaidd) consentrig llinellol â sgriw.
- Dylid gosod y tap draenio i lawr y llif o'r falf ddwbl fel y gellir draenio'r system.
- Lle bo maniffoldau a ffitiadau cysylltiedig mewn ardal segur, dylid inswleiddio'r rhain er mwyn eu hamddiffyn rhag rhew neu wres gormodol.

**Dŵr Cymru fydd yn cyflenwi'r mesuryddion ar gyfer yr holl eiddo. Ni chaiff datblygwyr osod eu mesuryddion eu hunain ar y maniffoldau hyn.**

### Systemau Llethu Tân mewn Adeiladau Aml-ddaliadaeth

Lle darperir cyflenwad mawr ar gyfer gosodiad amlddeiliadaeth, bydd Dŵr Cymru'n caniatáu defnyddio cangen o bibellwaith heb fesurydd ar y maniffold yn unswydd at ddibenion cyflenwi'r system llethu tân ar gyfer yr adeilad i gyd.

Gall datblygwyr fwydo'r systemau llethu tân trwy gyflenwad cyfunol trwy ymddolenni wrth y cyflenwadau domestig i bob eiddo unigol lle mae deiliaid hefyd. Ym mhob achos, rhaid bodloni'r holl ofynion eraill o fewn y Rheoliadau o ran cydymffurfio â'r systemau llethu tân.

## Cyflenwadau dŵr preifat a dŵr o ffynonellau amgen

Ffynhonnell dŵr nad yw'n cael ei gyflenwi gan yr ymgymerydd dŵr yw dŵr preifat - fel tyllau turio, nentydd/afonydd, tarddellau neu ffynhonnau. Y DWI (yr Arolygiaeth Dŵr Yfed) sy'n rheoleiddio cyflenwadau dŵr cyhoeddus a phreifat.

Bydd yr awdurdod lleol yn gwirio ansawdd y cyflenwad dŵr preifat hefyd (Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017), a byddwn ni'n gweithio gyda'r awdurdod lleol pan fo angen.

Ewch i linc y DWI am ragor o fanylion am gyflenwadau preifat
www.dwi.gov.uk/private-water-supplies

Mae gennym broses a chanllawiau penodol ar gyfer ceisiadau lle mae gan eiddo gyfenwad dŵr preifat.

www.dwrcymru.com/CyngorRheoleiddioDwr

## Tâp marcio - gwasanaethau dŵr

Tynnir sylw at y Rheoliadau Ffitiadau Dŵr [1] [2] [3], sy'n pennu'r gofynion cyfreithiol ar gyfer adnabod pibellau a ffitiadau yn rhwydd (ar ben ac o dan y ddaear) pan nad ydynt yn cael cyflenwadau o'r cyflenwad dŵr cyhoeddus (h.y. gan y cwmni dŵr lleol) a/neu lle nad yw'r hylif yn iachus.

## Systemau ailddefnyddio/adfer dŵr

### Systemau Cynaeafu Dŵr Glaw

Mae'r systemau yma'n defnyddio dŵr glaw sy'n disgyn ar doeau ac arwynebau eraill sy'n cael ei storio mewn tanc danddaear fel rheol er mwyn ei ddefnyddio'n ddiweddarach at ddibenion dyfrio planhigion, golchi ceir, fflysio toiledau ac ati. Gall y dŵr glaw sy'n cael ei storio gynnwys ysgarthion anifeiliaid ac adar ac olion llygryddion atmosfferaidd ac amgylcheddol; felly ni cheir ei ddefnyddio fel cyflenwad amgen o ddŵr yfed a rhaid peidio â'i gysylltu â'n cyflenwad dŵr yfed o'r brif bibell mewn unrhyw ffordd.

### Systemau Cynaeafu Dŵr Llwyd


Mae'r systemau yma'n defnyddio dŵr sy'n cael ei gynhyrchu gan beiriannau golchi, golchi llestri ac ymdrochi fel rheol. Yn ei hanfod, unrhyw ddŵr nad yw'n cynnwys gwastraff o'r tŷ bach yw hyn.

Er y gall dŵr llwyd gynnwys llawer o amhureddau, gellir ei ddefnyddio i ddyfrio'r ardd a fflysio'r tŷ bach o hyd, ond rhaid peidio â'i gysylltu â'n cyflenwad dŵr yfed o'r brif bibell mewn unrhyw ffordd.

Mae hi'n bwysig labelu a defnyddio cod lliw ar gyflenwadau dŵr preifat er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddryswch wrth ddefnyddio'r dŵr. Ni ddylid defnyddio pibellau MDPE glas o dan y ddaear ar gyfer y systemau hyn. Mae arweiniad ar adnabod pibellwaith yn BS 1710:2014 - Specification for identification of pipelines and services.

**Gellir cael rhagor o wybodaeth yn y afonau Prydeinig:**

- BS 8515:2009 – Rainwater Harvesting Systems Code of Practice
- BS 8525-1:2010 – Greywater systems code of practice



## Hysbysu

Rhaid ein hysbysu ni am sawl math o waith plymio cyn y gellir dechrau'r gwaith. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y cyflenwad dŵr yfed yn ddiogel bob tro. Rydyn ni'n adolygu unrhyw hysbysiadau sy'n cael eu hanfon atom a gallwn bennu amodau ar unrhyw waith gosod lle bo hynny'n briodol.

Mae'r tabl isod yn cynnwys rhestr o waith y mae angen cyflwyno hysbysiad yn ei gylch o dan y Rheoliadau.

Rhaid i ni gydsynio i'r gwaith gosod cyn y gall gwaith sy'n destun hysbysiad ddechrau. O'r dyddiad pan fyddwch chi'n ein hysbysu ni, bydd gennym 10 diwrnod gwaith i ymateb i chi.

Gallai Dŵr Cymru ymatal rhag rhoi caniatâd i chi os na chawn ni ddigon o wybodaeth i ategu eich cais. Wrth roi caniatâd, gallwn orfodi amodau lle bo hynny'n briodol, er mwyn sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei osod yn cydymffurfio.

Os ydych chi wedi ein hysbysu ni ac wedi darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol, ond nad ydych wedi cael ymateb cyn pen y ffenestr o 10 ddiwrnod gwaith, mae hi'n rhesymol tybio ein bod ni wedi rhoi caniatâd i chi gyflawni'r gwaith gosod.

**Mewn senarios o'r fath, ni fyddai'r caniatâd yn golygu bod eich gwaith gosod yn cydymffurfio, a'ch cyfrifoldeb chi yw sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau.**

Yn ogystal â'r wybodaeth a geisir wrth i chi gyflwyno eich cais am gysylltiad newydd i Ddŵr Cymru, bydd angen i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol hefyd os oes unrhyw ddarn o'r gwaith arfaethedig, heblaw'r gwaith o godi safle newydd, yn dod o fewn cwmpas y tabl uchod:

- Disgrifiad o'r gwaith neu o unrhyw newidiadau arwyddocaol sy'n cael eu cyflawni ar yr eiddo.
- Plan o'r gwasanaethau mecanyddol sy'n dangos trefn y gwaith arfaethedig i osod y cyflenwad dŵr, a ffitiadau ym mhwynt defnyddio'r dŵr.
- Y fanyleb dechnegol a thystiolaeth am gydymffurfiaeth y cynhyrchion (ar gyfer eitemau sy'n dod o dan adran 4 o'r tabl).
- Enw a manylion cyswllt eich contractwr - os ydych chi'n defnyddio contractwr cymeradwy.

| Tabl o'r gwaith y mae angen hysbysu yn ei gylch |
| --- |
| 1. Codi adeilad neu strwythur arall, heb fod yn bwll neu'n bwll nofio |
| **2. Ehangu neu ddiwygio system dŵr ar unrhyw safle arall nad yw'n dŷ annedd.** |
| 3. Newid defnydd materol ar unrhyw safle. |
| 4. Gosod:<br>a) Bath â chapasiti o dros 230 litr, wedi ei fesur i linell ganol y gorlif;<br>**b) Bidet sy'n chwistrellu ar i fyny neu â phibell hyblyg;**<br>c) Uned cawod sengl (a all gynnwys un pen cawod neu ragor o fewn uned sengl), heb fod yn gawod drensio sydd wedi ei gosod am resymau diogelwch neu iechyd, sydd wedi ei chysylltu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â phibell gyflenwi o fath y mae'r rheoleiddiwr yn ei bennu;<br>d) Pwmp neu gyfnerthydd sy'n tynnu mwy na 12 litr y funud, sy'n cysylltu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â phibell gyflenwi;<br>e) Uned sy'n ymgorffori gwrthosmosis;<br>f) Uned trin dŵr sy'n cynhyrchu gwastraff dŵr i'w ryddhau, neu sy'n gofyn am ddefnyddio dŵr at ddibenion adfywio neu lanhau;<br>g) Cydosodiad falf parth pwysedd is neu ddyfais fecanyddol arall i amddiffyn rhag hylif categori 4 neu 5;<br>h) System dyfrio gardd, oni bai ei bod wedi ei dylunio i'w gweithredu â llaw; neu<br>i) Unrhyw system ddŵr sy'n cael ei gosod y tu allan i adeilad ac sydd naill ai'n llai na 750mm neu'n fwy na 1350mm islaw lefel y ddaear. |
| 5. Adeiladu pwll neu bwll nofio â chapasiti o fwy na 10,000 litr a ddyluniwyd i gael ei adlenwi trwy ddulliau awtomataidd ac y bwriedir iddo gael ei lenwi gan ddŵr sy'n cael ei gyflenwi gan ymgymerydd dŵr. |


Cofiwch, mae rhai mathau o waith yn cael eu heithrio o'r gofyniad i hysbysu os ydych chi'n defnyddio contractwr cymeradwy, fel plymwr rhestredig WaterSafe. **Mae methu â hysbysu am unrhyw ran o'r gwaith uchod yn drosedd o dan y Rheoliadau.**

Gallwch ddysgu ragor am hysbysu a sut i'n hysbysu ni trwy sganio'r Cod QR neu fynd i www.dwrcymru.com/hysbysu

## Falfiau RPZ (parth pwysedd is)

Dyfais sy'n gallu cynnig amddiffyniad rhag adlif ar gyfer hylifau hyd at uchafswm risg Categori Hylif 4 yw Falf RPZ. Mae gosod a defnyddio falf RPZ yn gofyn am ymrwymiad hirdymor. Rhaid profi cydymffurfiaeth y dyfeisiau hyn a'u cynnal yn rheolaidd, o leiaf unwaith bob blwyddyn, er mwyn sicrhau bod y falf mewn cyflwr gweithredol da. Dim ond profwyr achrededig caiff gomisiynu a phrofi cydymffurfiaeth falfiau RPZ.

**Falf PRZ (Math BA)**




Cyn gosod falf RPZ, rhaid i chi ofyn am ganiatâd a chydsyniad yr ymgymerydd dŵr - gweler yr adran uchod ar Hysbysu cyn cyflawni gwaith gosod.

Rhaid cwblhau dulliau profi a threfniadau cynnal yn unol â pholisi Dŵr Cymru a'r Rheoliadau Dŵr, sydd i'w gweld ar ein gwefan. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn www.dwrcymru.com/RPZvalves

## Pwyntiau i'w nodi mewn datblygiadau newydd


Mae ein tîm Rheoliadau Dŵr yn cyflawni archwiliadau pob dydd ar systemau plymio newydd ar safleoedd ein cwsmeriaid. Mae yna rai problemau cyffredin sy'n dod i'n sylw wrth gyflawni archwiliadau. Mae'r rhain yn dueddol o gynnwys:

**Tai Bach**

Rhaid i dai bach newydd sy'n cael eu gosod gydymffurfio â'r gofynion o ran trefniant bwlch aer AUK1 er mwyn darparu'r lefel briodol o amddiffyniad rhag adlif. O 1 Ionawr 2020 ymlaen, gall tai bach gydymffurfio â gofynion y Cytundeb Interim Gwirfoddol am gyfnod cyfyngedig - sydd wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan. Er mwyn cydymffurfio â'r Cytundeb, yn gyntaf rhaid i dai bach gydymffurfio â BS EN 997 Rhan 2, a bod â bwlch o 15mm rhwng lefel gorlif pan y tŷ bach a lefel isaf y dŵr yn y seston. Gellir gofyn i wneuthurwyr a dosbarthwyr am dystiolaeth o gydymffurfiaeth.


**Pibellau Cawod**

Ni chaniateir i bibellau cawod gyrraedd/ disgyn i unrhyw un o ffitiadau'r ystafell ymolchi fel bod pen y gawod o dan y dŵr, felly rhaid eu ffrwyno er mwyn atal hynny rhag digwydd.



**Cylchoedd Llenwi**

Lle bo system cylch caeedig (system gwresogi ac ati) wedi cael ei gategoreiddio fel risg Categori Hylif 3 gan yr ymgymerydd dŵr, gellir ystyried bod gosod falf ddwbl ar gysylltiad y pwynt llenwi â'r bibell gyflenwi/ dosbarthu yn amddiffyniad derbyniol rhag adlif. Lle bynnag y bo modd, rydyn ni'n argymell bod cylchoedd llenwi dros dro yn cael eu datgysylltu wrth eich system gwresogi pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.



**Canghennau Segur**


Canghennau segur yw darnau o bibellwaith segur sy'n peri i ddŵr droi'n ferddwr mewn rhannau o'r system blymio. Mae merddwr yn gyfrifol am lawer o broblemau o ran blas a drewdod, ac mae'n peri risg o halogiad. Gwaherddir canghennau segur o dan y Rheoliadau, a rhaid dylunio systemau fel nad oes yna unrhyw ddarnau segur o bibellwaith.

**Sodr Plwm**

Gwaherddir defnyddio sodr plwm i uno pibellau copr ar systemau plymio sy'n cyflenwi dŵr at ddibenion domestig a chynhyrchu bwyd, gan gynnwys yfed, golchi, coginio neu ymolchi.


**Peiriannau Golchi Dillad a Llestri**
Ar safleoedd domestig, ystyrir offer fel y rhain yn risg Categori Hylif 3. Lle na ellir tystiolaethu bod amddiffyniad priodol rhag adlif ar declyn eisoes, byddwn ni'n gofyn bod falf ddwbl yn cael ei gosod ar linell y bibellwaith sy'n cyflenwi'r teclynnau yma.

Hyd yn oed mewn achosion lle nad yw peiriant yn darparu lefel ddigonol o amddiffyniad, gall y pibellau sy'n gwasanaethu'r teclynnau achosi problemau o ran ansawdd dŵr, fel blas neu arogl cas. Gellir lliniaru hyn trwy osod falf un ffordd ar y cyflenwad i'r bibell ei hun.




**Er mwyn gosod teclynnau o'r fath ar safleoedd annomestig, bydd angen tystiolaeth o amddiffyniad priodol rhag adlif.**

**Gwasanaethu Falfiau a Thapiau Draenio**
Mae hi'n ofyniad o dan y Rheoliadau bod digon o falfiau gwasanaethu a thapiau draenio ar yr holl osodiadau er mwyn lleihau faint o ddŵr sy'n cael ei wastraffu wrth gynnal neu ddisodli ffitiadau dŵr. Yn benodol, mae'r Rheoliadau'n mynnu bod falf gwasanaeth ar y cyflenwad sy'n dod i mewn i bob seston fflysio tŷ bach a seston storio dŵr oer, ynghyd â pheiriannau golchi dillad a llestri. Mae eu gosod ar ffitiadau eraill fel tapiau yn arfer da hefyd.




**Tapiau Uno Pibellau**
Ystyrir tap uno pibell ar safle domestig i fod yn risg Categori Hylif 3 fel rheol, sy'n golygu y gellir lliniaru'r risg o adlif trwy osod falf ddwbl. Dylid gosod y falf ddwbl ar y llinell, ar y cyflenwad i'r tap ac yn fewnol o fewn y safle.


Bydd ar dapiau uno pibellau ar safleoedd annomestig angen lefel briodol o amddiffyniad rhag adlif yn seiliedig ar ddefnydd y tap, a'r categori uchaf o risg fesul categori hylif i lawr y llif.

Er enghraifft, ystyrir bod tap uno pibellau mewn storfa finiau'n risg Categori Hylif 5. Mae hynny'n golygu y bydd angen iddo gael ei fwydo trwy drefniant bwlch aer priodol, a hynny'n fwyaf tebygol o danc storio dŵr pwrpasol.

**Risg**

| Hylif Categori 3 | Hylif Categori 4 | Hylif Categori 5 |
|---|---|---|
| Falf ddwbl | Falf RPZ | Cyflenwad o storfa â bwlch aer math AB |

**Awgrym**
Defnyddiwch glipiau ffrwyno neu rîl pibell sy'n ei dynnu ei hun nôl i ddal y bibell yn ei lle a'i hatal rhag ymsuddo neu gael ei halogi gan unrhyw beth sydd gerllaw.



**Ni ddylid byth gadael pibellau dyfrio dan ddŵr mewn bwcedi, sinciau, draeniau neu'n gorwedd ar y ddaear.**

## Cysylltu â ni

### Y Tîm Rheoliadau Dŵr

I gael rhagor o gyngor ar y Rheoliadau, cysylltwch ag aelod o'n tîm Rheoliadau Dŵr pwrpasol.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu rhai o ofynion y Rheoliadau yn unig. Rhaid i unrhyw waith gosod gydymffurfio'n llwyr â'r Rheoliadau.

Os oes cwestiynau gennych am osodiad penodol neu rywbeth arall sy'n ymwneud â'r ffordd rydyn ni'n gorfodi'r Rheoliadau, y peth gorau i'w wneud yw cysylltu â ni'n uniongyrchol.

Gallwch gysylltu â ni trwy e-bost:
**WaterRegulations@dwrcymru.com**

Mae llawer o wybodaeth ddefnyddiol ar gael ar ein gwefan hefyd:

### Y Tîm Gwasanaethau

Os oes unrhyw gwestiynau gennych am eich cais am gysylltiad newydd nad yw'n gysylltiedig â'r Rheoliadau Dŵr, neu i wneud cais am archwiliad o'ch ffos, cysylltwch â'n tîm Gwasanaethau Datblygu yn:

Ffôn: **0800 917 2652**

Ebost: **developer.services@dwrcymru.com**

Mae gwybodaeth ac adnoddau defnyddiol ar wefan y Gwasanaethau Datblygu hefyd yn:
**https://developers.dwrcymru.com/**

Gallwch gael gwybodaeth am y Rheoliadau gan sefydliadau eraill hefyd, fel Water Regs UK.

Ffôn: **01495 983 010**

Gwefan: **www.waterregsuk.co.uk**

E-bost **info@waterregsuk.co.uk**

**dwrcymru.com**